Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bwlch Nant yr Arian – Llwybr Beicio Melindwr



**Beth oedd nodau'r prosiect?**

Y bwriad oedd creu llwybr beicio mynydd - gradd canolradd – yn cychwyn yng Nghanolfan Ymwelwyr Nant yr Arian. Prif ddiben y llwybr yw cyflwyno beicwyr i feicio mynydd oddi ar y ffordd a llwybrau trac sengl. Mae yna lwybrau gradd profiadol ac arbenigol eisoes yn Nant Yr Arian yn ogystal â pharc sgiliau newydd.

Mae'r dyluniad 'gradd las' yn rhoi sylw arbennig i anghenion dechreuwyr a beicwyr canolradd, teuluoedd â phlant ifanc a rhai beicwyr ag anableddau. Wedi dweud hynny, mae'r llwybr yn ddelfrydol hefyd ar gyfer beicwyr traws gwlad a beicwyr mynydd hamdden. Mae'r llwybr o leiaf 1500mm o led, â graddiant cymedrol yn bennaf.

**Sut cafodd y nodau hyn eu cyflawni?**

Cafodd llwybr beicio mynydd gradd canolradd ei adeiladu, yn dechrau yng Nghanolfan Ymwelwyr Nant yr Arian, a'i alw'n Llwybr Melindwr i ennyn ymdeimlad o le.
Roedd y prosiect yn cynnwys pedwar darn gradd canolradd wedi'u cysylltu â'i gilydd gan ffordd goedwig. Mae'r llwybr gradd canolraddol yn rhyw 9km o hyd yn ei gyfanrwydd gan ei fod hefyd yn defnyddio rhai ffyrdd coedwig. Gwnaethon ni ddewis 4 o'r darnau gorau o blith cyfres o ddarnau, i gyd wedi'u costio'n llawn, i greu llwybr cwbl newydd y gellir ychwanegu darnau pellach ato yn y dyfodol pan fydd arian ar gael.

**Pwy oedd yn rhan ohono?**

Roedd trawstoriad eang o staff o wahanol adrannau Cyfoeth Naturiol Cymru ac arbenigwyr a chontractwyr allanol yn gysylltiedig â'r prosiect.

**Sut cafodd y prosiect ei ariannu?**

£128,000 Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS)
£32,000 Arian Mewnol CNC

**Ble aethoch chi am help a chyngor?**

Gwnaethon ni ddysgu o brofiad Parc Coedwig Coed y Brenin â'u Llwybr MinoTaur gradd Las. Mae'r Llwybr MinoTaur yn llwybr beicio mynydd gradd las ganolradd 9km o hyd.

**Beth yw'ch camp fwyaf hyd yma?**

Nid oedd yna unrhyw lwybrau gradd las eraill yn y Canolbarth, a Choed y Brenin yn y Gogledd a

Choedwig Hafren yn y De oedd yr agosaf. Mae Llwybr Melindwr yn gam hawdd i feicwyr fentro o feicio ar ffyrdd coedwig neu lwybrau ceffyl da i lwybrau trac sengl pwrpasol gyda nodweddion wedi'u cynllunio'n benodol yn ôl lefel sgiliau'r beiciwr. Mae'r llwybr wedi caniatáu i ni greu marchnadoedd newydd a datblygu'r rhai sy'n bodoli eisoes.

Mae'r llwybr yn herio'r syniad bod angen sgiliau da a beic drud i feicio mynydd. Gall unrhyw un sydd â sgiliau beicio canolradd a beic mynydd i ddechreuwr, cyclocross, graean neu hyd yn oed feic hybrid gael hwyl â'r nodweddion sydd wedi'u creu ar y llwybr hwn. Mae'n annog beicwyr i ddatblygu eu sgiliau ac mae eu mwynhad yn tyfu wrth iddynt ddysgu sut i fynd i'r afael yn fwy anturus â'r nodweddion hyn cyn symud yn eu blaenau i lwybrau gradd uwch. Mae'r llwybr wedi'n helpu i ddatblygu'r farchnad wrth i ni gyflwyno beicwyr dibrofiad i'r gweithgaredd mewn modd mwy blaengar. Mae hefyd yn gwireddu amcanion iechyd a lles Llywodraeth Cymru, gan ei fod yn cynnig rhywbeth i feicwyr y byddai llwybrau gradd "Profiadol" wedi bod yn rhy anodd iddynt.

Mae'r datblygiad hwn wedi cynnig y profiadau a'r cyfleusterau sydd eu heisiau ar bobl yn y maes hwn gan gynnig cyfleusterau sy'n annog amrywiaeth a chynhwysiant ac sydd wedi gwella ansawdd y profiad i dwristiaid.

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r llwybr beicio mynydd yn 2020. Gellir priodoli rhywfaint o'r cynnydd i gyfyngiadau Covid a'r teithiau a ganiatawyd, ond gellir priodoli peth o'r cynnydd sylweddol a fu i'r llwybr newydd.

**A'r her fwyaf?**

Cynnal a chadw'r llwybr yn y dyfodol mewn lleoliad mor heril, gyda thir anodd a gwaith coedwigaeth/cynhyrchu pren o gwmpas.
Sicrhau bod y llwybr yn parhau i apelio at feicwyr rheolaidd. Efallai y bydd angen ystyried a chynnwys cynllun datblygu yn yr amserlen cynnal a chadw hirdymor, er mwyn cyflwyno nodweddion newydd posibl wrth i amser fynd heibio.

**Unrhyw gynghorion i'r rhai sy am sefydlu prosiect tebyg?**

Cofiwch neilltuo digon o amser i gynllunio ac asesu'r prosiect. Gofynnwch am gyngor cymaint o bartïon profiadol â phosibl. Darllenwch astudiaethau achos am brosiectau tebyg a chynlluniwch gymaint ag y medrwch rhag yr anrhagweladwy h.y. amser a chost.

Dysgwch oddi wrth y staff sydd â phrofiad yn y maes hwn ac o'r broses. Yn fewnol, mae gennym staff cymwysedig a phrofiadol - o staff y safle i staff caffael a chyllid – sydd wedi bod ynghlwm wrth ddatblygu llwybrau tebyg ac felly'n gallu cynnig dealltwriaeth unigryw. Gellir defnyddio prosiectau'r gorffennol i helpu i hwyluso'r broses a chynnig atebion unigryw i broblemau cyffredin a meini tramgwydd. Gofynnwch i ymgynghorwyr a chynghorwyr yn y maes am gyngor ac arweiniad ar ddechrau'r broses. Rydym wedi manteisio ar arbenigedd ymgynghorwyr a chynghorwyr allanol a oedd wedi cyfrannu at brosiectau tebyg ac yn deall y gofynion dylunio/adnoddau a'r agweddau technegol sydd ynghlwm wrth adeiladu llwybrau beicio mynydd gradd las. Cawsom hefyd fanteisio ar gyfnod paratoi hir. Roedd y prosiect wedi bod yn yr arfaeth ers blynyddoedd lawer ac wedi elwa ar gyfraniad arbenigwyr gwahanol yn y maes. Roedd cael dyluniad y llwybr yn barod cyn bod arian ar gael wedi hwyluso'r broses ymgeisio a chydymffurfio. Felly, mae angen penderfynu'n gyntaf ble mae angen buddsoddi ac yna cael hyd i'r cyllid. Fel arall, cewch eich arwain gan ystyriaethau ariannol yn hytrach na strategaeth.

**Beth sydd nesaf ar gyfer eich prosiect?**

Gwaith cynnal a chadw da a chwilio am arian i allu datblygu llwybr pob gallu Gwyrdd er mwyn gallu rhoi'r profiad beicio mynydd llawn i bawb.